

# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol Arbennig o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 2 Chwefror 2021

**Yn bresennol:** Cynghorydd Margaret M Roberts – Cadeirydd  
Cynghorydd Glyn Haynes – Is-gadeirydd

Cynghorwyr R Dew, John Griffith, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Richard Owain Jones, G O Jones, R LI Jones, R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Alun Roberts, Dafydd Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers a Dafydd Rhys Thomas

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Richard Griffiths, Dylan Rees, Ieuan Williams a Robin Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dim

(2.00 o'r gloch - 2.35 o'r gloch yf)

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	3. Newidiadau i'r Cyfansoddiad - Ail-strwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth
DECISION	<p><b>PENDERFYNWYD:-</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Nodi argymhellion y Pwyllgor Penodi a chadarnhau:</b></li> <li>• <b>Dileu swydd Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (swydd sydd hefyd wedi ei hadnabod fel Cyfarwyddwr Lle/Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Siapio Lle yn ystod y broses recriwtio ddiweddar) o Gyfansoddiad y Cyngor;</b></li> <li>• <b>Creu rôl barhaol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac i'r rôl hon gael ei hysbysebu'n allanol;</b></li> <li>• <b>Sefydlu a hysbysebu'n allanol swydd newydd, sef Swyddog Strategaeth Gorfforaethol.</b></li> <li>• <b>Cadarnhau cynnwys Atodiad 2, sy'n adlewyrchu'r diwygiadau uchod i strwythur y Cyngor, yng Nghyfansoddiad y Cyngor;</b></li> <li>• <b>Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Prif Weithredwr (yn dilyn ymgynghoriad), yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.2.11 o'r Cyfansoddiad, ac o ganlyniad i'r</b></li> </ul>

**newid strwythurol uchod, yn rhannu'r meysydd cyfrifoldeb perthnasol ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth, fel bo'r angen.**

- **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro, yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad, yn diwygio'r Cyfansoddiad (gan gynnwys y cynllun dirprwyo i swyddogion) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â'r newid strwythurol uchod a dosbarthiad y cyfrifoldebau ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y gwnaed gan y Prif Weithredwr dan y chweched pwynt bwled uchod.**
- **Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro yn gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol eraill i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r argymhellion uchod.**